PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL

DYDD MERCHER, 8 CHWEFROR 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Y Cynghorwyr Awan, Clark, Chris Davis, Hill-John, Keith Jones a/ac Darren Williams |

## 57 : PENODI CADEIRYDD

Penododd y Pwyllgor Y Cynghorydd Gavin Hill-John fel Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

## 58 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Aubrey a'r Cynghorydd Mitchell.

## 59 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

## 60 : CYFNEWIDFA DRAFNIDIAETH GORLLEWIN CAERDYDD – YSTYRIED PENDERFYNIAD A ALWYD I MEWN Y CABINET CAB/16/38; ADRODDIAD CYFARWYDDWR GWEITHREDIADAU'R DDINAS

Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn darparu ar gyfer unrhyw benderfyniad a gymerir gan y Cabinet i gael ei alw mewn trwy roi rhybudd i Reolwr Gweithredol Gwasanaethau Craffu o fewn saith niwrnod o gyhoeddi'r penderfyniad hwnnw. Yn ystod y cyfnod sy'n dilyn cyfarfod y Cabinet ar 15 Rhagfyr 2016, cyflwynodd Cynghorydd anweithredol gais i alw i mewn y penderfyniad ar yr eitem â'r teitl 'Cardiff West Transport Interchange'. Roedd yr adroddiad wedi ceisio cymeradwyaeth i fynd ymlaen gyda datblygu Hyb Trafnidiaeth Integredig ar safle'r Depo Ailgylchu Ffordd Waungron blaenorol.

Dywedwyd wrth aelodau fod Penderfyniad y Cabinet CAB/16/38, a gyhoeddwyr 16 Rhagfyr 2016 gyda dyddiad gweithredu arfaethedig o 29 Rhagfyr 2016 wedi penderfynu:

- Y câi datblygiad arfaethedig Cyfnewidfa Trafnidiaeth y Gorllewin gael ei gymeradwyo;

- Y câi awdurdod ei ddirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredoedd y Ddinas mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Gyllid, Aelod Cabinet ar gyfer Trafnidiaeth, Cynllunio a Chynaliadwyedd, Swyddog 151 y Cyngor a Chyfarwyddwr y Gyfraith a Llywodraethu er mwyn ymdrin â phob agwedd ar gaffael gwaith ar gyfer Datblygiad Cyfnewidfa'r Gorllewin fel y rhestrir yn yr adroddiad hwn, hyd at a gan gynnwys rhoi'r contract;

- Y câi trosglwyddo dyraniad y Rhaglen Cyfalaf Dangosol o welliannau i Goridorau Bysys i Gynllun yr Cyfnewidfa Gorllewin Caerdydd ei gymeradwyo.

Atodwyd copi o Gofrestr Penderfyniad y Cabinet ac adroddiad y Cabinet fel atodiadau i'r adroddiad.

Gofynnodd Aelod anweithredol y câi'r penderfyniad ei alw i mewn er mwyn i'r Cabinet ei ystyried. Crynhowyd y prif resymau dros alw'r penderfyniad i mewn fel a ganlyn:

- **Ariannol –** gan gynnwys cost y Cynllun, elfennau'r costio, cyfrifo costau cynnal a'r ffynhonnell cyllid a ddewiswyd ar gyfer y cynllun;
- **Llif y Traffig a Modelu –** darperir pryderon ynglŷn â materion a gynhwysir yn Adroddiad Modelu AECOM fel papur cefndirol yn Adroddiad y Cabinet

- **Parcio –** a fyddai'r cynnig yn cael effaith ar gapasiti parcio yn yr ardal;

- **Trafnidiaeth a Chysylltedd –** yn ymholi am effaith y cynnig ar ddatblygu coridorau bysiau trafnidiaeth gyflym a dosbarthu tocynnau integredig;

- **Pryderon Iechyd a Diogelwch –** er mwyn diogelwch teithwyr mewn bysus, beicwyr a gyrwyr ceir; a

- **Materion Beicio –** yr egwyddor o roi beicwyr ar balmentydd a rennir, a rhoi stondinau beiciau yng nghanol y triongl.

Gofynnwyd i aelodau ystyried y galwad i mewn yn unol â gofynion y Weithdrefn Galw i Mewn. Mae cwmpas y craffu hyn wedi'i gyfyngu i archwilio'r rhesymau dros y galwad i mewn a grynhoir uchod.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Neil McEvoy i annerch y Pwyllgor a chyflwyno'r rhesymau dros alw Penderfyniad y Cabinet i mewn. Dywedodd y Cynghorydd McEvoy yr amlinellir y rhesymau dros y galwad i mewn yn ei gyflwyniad. Ystyriodd na fyddai'r Cyfnewidfa Trafnidiaeth arfaethedig yn cyflawni unrhyw welliant ychwanegol i wasanaethau na allent fel arfer gael eu cyflawni trwy ddarparu rhagor o wasanaethau ac amserlennu mwy dychmygus.

Dywedodd y Cynghorydd McEvoy, yn ei farn ef, y gyrrwr ar gyfer yr Cyfnewidfa Trafnidiaeth oedd y Cyngor, a oedd yn cael eu cynghori gan swyddogion a oedd heb unrhyw wybodaeth leol neu ond ychydig iawn. Roedd tagfeydd traffig yn yr ardal eisoes yn broblem fawr. Roedd yn gynt cerdded i Bont Trelái i ddal bws ac achoswyd peryglon drwy ddarparu bysys ychwanegol ar rwydwaith sydd eisoes wedi'i orlwytho na aethpwyd i'r afael â nhw.

At hyn, ystyriodd y Cynghorydd McEvoy na glynwyd at ddarpariaethau'r Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol – sy'n dweud bod rhaid cynnwys cymunedau o ran gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Nid fu unrhyw ymgynghori â'r gymuned parthed y penderfyniad hwn. I'r gwrthwyneb, derbyniodd pleidlais gymunedol a ofynnodd a ddylid troi'r safle yn ôl yn Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref gefnogaeth o 100%.

Dadleuodd y Cynghorydd McEvoy nad oedd y cynnig er buddiant y cyhoedd. Nid oedd unrhyw bris sefydlog ar gyfer y cynnig a gallai'r gyllideb o £1.7 miliwn gynyddu. Dywedodd ef nad oedd unrhyw rinwedd yn y cynllun, cafodd ei ruthro ac nid oedd hawl gan y Cyngor ganiatáu tua £2 miliwn ar yr adeg hon. Roedd yn debygol y câi'r penderfyniad ei ailwerthuso yn dilyn yr etholiad llywodraeth leol fis Mai.

Ceisiodd y Pwyllgor eglurhad ar farn y Cynghorydd McEvoy ar nifer o faterion, gan gynnwys pryderon ynglŷn â pharcio a lleoliad y gyfnewidfa arfaethedig.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Ramesh Patel, Aelod Cabinet dros Drafnidiaeth, Cynllunio a Chynaliadwyedd; y Cynghorydd Graham Hinchey, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad. Gwahoddwyd yr Aelodau Cabinet i gyflwyno sylwadau.

Dywedodd y Cynghorydd Patel ei fod yn pwysig deall gweledigaeth thrywydd yr awdurdod yn nhermau trafnidiaeth. Mae'r Ddinas yn tyfu. Bydd tua 80,000 o gymudwyr yn teithio i mewn i'r ddinas bob dydd ac yn ogystal bydd y CDLl yn dod â datblygiadau newydd. Mae'n rhaid i drafnidiaeth yn y Ddinas newid ac mae 'hybiau bysys' yn galluogi teithio ar draws y ddinas, gan osgoi'r angen am ddod i mewn i Ganol y Ddinas.

Anghytunodd y Cynghorydd Patel â'r honiad fod y penderfyniad yn cael ei ruthro. Cafodd y cynigion eu datblygu dros cyfnod amser hir a dywedwyd wrth y Cynghorydd McEvoy am y cynlluniau yn ystod y camau cynnar. Ni roddwyd cynigion amgen gerbron. Gorffennodd y Cynghorydd Patel drwy ddweud mai nod yr hyb bysys yw annog pobl i roi'r gorau i deithio mewn car – roedd gweithredu'r Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref wedi achosi problemau o ran tagfeydd traffig yn y gorffennol oherwydd parcio.

Dywedodd y Cynghorydd Hinchey y bydd y swyddog yn ymdrin â phob un o'r pwyntiau a wneir gan y galwad i mewn. Pwysleisiodd y Cynghorydd Hinchey y bwriadwyd i'r cyfleuster fod yn gyfnewidfa bysys ac nid safle parcio a theithio. Mewn dinas sy'n tyfu, roedd yn bwysig cymryd golwg strategol ar reoli traffig. Mae'r safle ar groesffordd nifer o gymunedau ac mae gan y Cyngor gyfrifoldeb dros wneud y defnydd gorau o'r tir o dan ei reolaeth.

Ystyriodd y Cynghorydd Hinchey y rhoddwyd digon o wybodaeth i'r Cabinet cyn gwneud iddo wneud ei benderfyniad a gwneir hyn yn glir yn yr adroddiad.

Croesawodd y Cadeirydd Andrew Gregory, y Cyfarwyddwr Corfforaethol a swyddogion o Gyfarwyddiaeth Gweithredoedd y Ddinas. Gwahoddwyd y swyddogion i roi cyflwyniad ar Gyfnewidfa Gorllewin Caerdydd. Yn dilyn y cyflwyniad, gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan Aelodau'r Pwyllgor. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Nododd yr aelodau fod y cyngor ariannol yn dweud mai cost y project oedd £1.7 miliwn – gyda phosibilrwydd y bydd gofyn am elfen arall o gyllid.
- Gofynnodd yr aelodau a oedd y ffigwr £1.7 miliwn yn cynnwys cost ymgynghorwyr ac amser staff. Yn ogystal, gofynnodd yr aelodau a oedd y ffigwr yn cyfrif am y gyllideb gyfan ar gyfer Gwelliannau i Goridorau Bysys am y 4 blynedd nesaf. Dywedodd swyddogion fod y gost yn cynnwys costau staff ac ymgynghoriaeth. Y ffigwr £1.7 miliwn oedd yr amcangyfrif gorau o gost

gyffredinol y project, fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd y ffigwr hon yn codi neu'n gostwng.
Roedd Cyfnewidfa Gorllewin Caerdydd yn gynnig radical newydd. Byddai cyfleoedd newydd o a106, cyllid grant a'r arian parcio wrth gefn yn caniatáu codiadau ychwanegol. Roedd gwaith yn parhau ar y rhwydwaith o goridorau bysys a chafodd cyllid o gosbau gorfodi sifil ei ddiogelu ar gyfer projectau trafnidiaeth.

- Cytunodd yr aelodau bod darparu amserau teithio gwell yn allweddol o ran annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Gofynnodd yr aelodau a gâi symudiadau bysys eu gwella o ganlyniad i'r cynigion. Roedd y swyddogion yn rhagweld, yn y dyfodol byddai mwy o wasanaethau bysys a mwy o ddewis ar gyfer defnyddwyr bysys. Câi ymdrechion eu gwneud i leihau oedi. Câi pedwar safle bysys ychwanegol eu darparu. Y nod fyddai cyflawni gweithrediad 'cyrraedd a mynd' sy'n golygu na fyddai fwy na 10 munud o aros am wasanaeth bws. Roedd hyn yn amcan y project Metro; byddai o fudd i bob defnyddiwr, a gallai ond cael ei gyflawni pe bai cynnydd o ran capasiti.

- Dywedodd yr Aelod Cabinet nad oedd gwneud dim byd yn opsiwn. Roedd yn hanfodol fod yr awdurdod yn gwneud popeth y gallai ei wneud er mwyn darparu'r cyfleusterau gorau. hyn.

- Gofynnodd yr aelodau a oedd unrhyw safleoedd posibl eraill ar gyfer Cyfnewidfa Drafnidiaeth yn Ngorllewin Caerdydd a pha gyfleodd allai ddod i'r amlwg yn y dyfodol pe na gâi safle Ffordd Waungron ei ddatblygu. Dywedodd y swyddogion nad oedd unrhyw safleoedd eraill y mae'r Cyngor yn berchen arnynt yng Ngorllewin Caerdydd.

- Nododd y Pwyllgor fod y galwad i mewn wedi herio'r cyngor technegol a dderbyniwyd gan y Cabinet. Gofynnodd yr aelodau i'r swyddogion pa mor hyderus oeddent o ran cywirdeb y cyngor technegol a ddarparwyd. Dywedodd yr Aelod Cabinet y câi nifer o gymunedau eu heffeithio gan y cynigion. Roedd tua 10,000 o dai o fewn pellter cerdded i'r safle ac ni fyddai'r symudiad tuag at drafnidiaeth cynaliadwy yn digwydd oni bai bod dewisiadau dichonadwy eraill i bobl eu defnyddio.

*Cafodd y cyfarfod ei oedi am ychydig ar y pwynt hwn yn dilyn derbyn cais am gyngor cyfreithiol gan y Swyddog Monitro.*

- Gofynnwyd i'r swyddogion egluro pa ymgynghoriaeth a gynhaliwyd gyda phreswylwyr lleol.
- Dywedodd y swyddogion, yn ystod y broses ceisiadau cynllunio, cynhaliwyd ymgynghoriaeth gyda phreswylwyr lleol a Chynghorwyr lleol. Mae ymgynghori ar geisiadau cynllunio yn safonol a chaiff Cynghorwyr lleol gyfle i fwydo i mewn i hyn fel rhan o'r broses ymgynghori. Dangosodd adborth o'r arolwg Holi Caerdydd fod y cyhoedd yn cefnogi darparu mwy o drafnidiaeth gyhoeddus a lleihau tagfeydd. Nododd yr aelodau fod costau'r project yn codi. Mynegodd aelodau y farn y byddai wedi bod yn well ganddynt gael cyfle i graffu ar y materion hyn ar gam cynharach.

- Gofynnodd yr aelodau i swyddogion ddangos sut y câi mynediad at y llain o dir ei hwyluso. Dywedodd y swyddogion y dangosir mynediad ar y diagram a

ddarparwyd i'r Pwyllgor. Câi mynediad ei gyfyngu a byddai'n destun cais cynllunio ar wahân. Roedd y materion hyn yn eilradd i'r penderfyniad a alwyd i mewn a byddent yn destun ail adroddiad i'r Cabinet. Ystyriodd yr aelodau y byddai'n ddefnyddio gwybod a yw mynediad at y safle yn ymarferol ar y cam hwn. Gofynnodd yr aelodau am ragor o eglurhad o sut y câi unrhyw drefniadau eu gorfodi. Nododd y swyddogion bryderon y Pwyllgor mewn perthynas â threfniadau mynediad.

- Nododd y Pwyllgor fod 2 ddatblygiad tai strategol wedi'u cynnig ar Ffordd Llantrisant. Gofynnodd yr Aelodau pa deithiau/gwasanaethau bysys allai gael eu darparu o Gyfnewidfa Drafnidiaeth Gorllewin Caerdydd. Dywedodd y swyddogion fod hyn yn fater i'r gweithredwyr bysys, ond rhagwelwyd y câi gwasanaethau ychwanegol eu darparu, nid yn unig ar Ffordd Llantrisant, ond ar Ffordd Plasmawr a Ffordd Sain Ffagan. Yn ogystal, gofynnwyd i aelodau nodi y câi'r cynigion Parcio a Theithio ar Gyffordd 33 effaith hefyd yn nhermau teithiau/gwasanaethau ychwanegol.

- Gofynnwyd i'r swyddogion am sylwadau ynglŷn â defnydd y gyfnewidfa gan feicwyr. Dywedodd y swyddogion fod y safle yn gyrchfan ar lwybr strategol. Rhagwelwyd y byddai'r gyfnewidfa yn cysylltu â llwybrau beicio o safon uchel.

- Cadarnhaodd y swyddogion na fyddai parcio ar gael ar y safle. Fodd bynnag, câi mannau gollwng/codi eu darparu. Ystyriodd yr Aelod Cabinet y byddai parcio yng Nghyfnewidfa Drafnidiaeth Gorllewin Caerdydd yn llai problematig na'r parcio oedd yn gysylltiedig â'r CAGC flaenorol.

- Gofynnodd yr aelodau pa fesurau penodol a gynigwyd er mwyn gwella amserau a symudiadau teithiau. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod mesuriadau eisoes ar waith, megis coridorau bysys a gorfodi parcio. Dangosodd adborth gan weithredwyr bysys fod amserau teithiau yn gwella o ganlyniad i'r mesurau hyn.

- Dywedwyd wrth y Pwyllgor, gan fod masnachfraint Trenau Arriva i gael ei hadnewyddu yn 2018, roedd yn annhebygol y câi unrhyw gwasanaethau trenau ychwanegol eu darparu yn y tymor byr. Fodd bynnag, bydd Cyfnewidfa Drafnidiaeth Gorllewin Caerdydd yn sicrhau bod cysylltiadau â llwybrau eraill yn bosibl.

Croesawodd y Cadeirydd Max Wallace o Ymgyrch Beicio Caerdydd i'r cyfarfod. Gwahoddwyd Max Wallace i wneud sylwadau. Mae'r rhain wedi eu crynhoi fel a ganlyn:

- Bod Ymgyrch Beicio Caerdydd yn cefnogi cyfnewidfa fysys ym Melin Trelái.
- Cafodd darpariaeth o'r fath ei hepgor o'r CDLl ond mae'n bosibl y bydd yn ymarferol o hyd.
  Trwy ganiatáu i beicwyr a cherddwyr rannu'r llwybr troed, mae'r cynnig a gytunwyd gan y Cabinet wedi methu cydymffurfio â pholisi'r Cyngor a ddatganwyd, sef darpariaeth wedi'i gwahanu ar gyfer beicwyr. Gallai gwahanu fod wedi'i gynnwys yn y cynllun ar gyfer y gyfnewidfa ond ni ddigwyddodd hyn.

- Disgrifiwyd cynllun y gyfnewidfa yn ddiarffordd, anneniadol ac yn anymarferol, heb unrhyw oruchwyliaeth a dim lle ar gyfer stondinau beiciau.

- Ystyriwyd na fyddai'r gyfnewidfa yn ddefnyddiol ar gyfer beicwyr a byddai ond ychydig o gymhelliant i feicwyr ddefnyddio cyfleuster o'r fath. Gellid defnyddio cyllid ar gyfer y cynllun ei ddefnyddio ar gyfer projectau eraill a fyddai o gymorth i feicwyr.

Gwahoddodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol er mwyn gwneud sylwadau i gloi.

Dywedodd y Cynghorydd McEvoy fod penderfyniad y Cabinet yn 'ffars' ac y byddai'n arwain at ddim byd na ellid ei gyflawni trwy amserlennu gwell. Ystyriodd fod y project hwnnw yn 'wastraff o arian cyhoeddus' a fyddai'n arwain at amserau teithio arafach ac ni fyddai unrhyw ddarpariaeth parcio. Mae ffyrdd yn yr ardal eisoes y tu hwnt i'w capasiti. Mynegwyd pryderon nad ymgynghorwyd â chymunedau parthed â'r cynigion. Roedd hefyd yn debygol y byddai iechyd trigolion sy'n byw ger y safle yn cael ei effeithio gan llygryddion niweidiol. Gofynnodd Y Cynghorydd McEvoy i'r Pwyllgor gyfeirio'r penderfyniad yn ôl i'r Cabinet i'w ystyried ymhellach.

Dywedodd y Cynghorydd Patel fod y cynllun yn hanfodol. Er mwyn i'r ddinas dyfu a bod â strategaeth trafnidiaeth dda, mae angen i bethau gael eu gwneud yn wahanol. Mae gan yr awdurdod gyfeiriad clir. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau gan Aelodau lleol parthed y cais cynllunio ar gyfer y safle. Pwysleisiodd y Cynghorydd Patel nad oedd y safle yn gyfleuster parcio a theithio.

Dywedodd y Cynghorydd Hinchey fod y gyfnewidfa yn ddatblygiad strategol a'i fod mewn lleoliad da. Roedd y Cabinet wedi ystyried cost y project, y ffrydiau refeniw a 'r posibilrwydd o dderbyn cyfalaf. Roedd Melin Trelái eisoes yn cael ei ddatblygu ac ni ellid ei ystyried ac ni ellid ei hystyried fel lleoliad posibl ar gyfer lleoliad posibl i Gyfnewidfa Gorllewin Caerdydd. Y cynllun strategol oedd defnyddio coridorau bysys er mwyn brwydro yn erbyn tagfeydd sy'n cynyddu. Bydd preswylwyr a chymudwyr yn newid i drafnidiaeth gyhoeddus os caiff cyfleusterau fel hyn eu darparu. Dilynodd y Cabinet y drefn briodol wrth wneud penderfyniad.

CYTUNWYD – Y câi'r penderfyniad ei gyfeirio yn ôl i'r Cabinet am y rhesymau canlynol:

- **Ariannol –** Ar y cyfan roedd Aelodau'n bryderus ynglŷn â'r cynnydd o ran costau o £500,000 ar gyfer y cysyniad amlinellol i £1.7 miliwn am gynllun wedi'i ddylunio.
- Byddent yn gofyn yr ymgymerir ag adolygiad o'r holl gostau cyn mynd â'r cynllun ymhellach.
- **Parcio –** Ar y cyfan roedd Aelodau'n bryderus na fu ystyriaeth ddigonol yn yr ardal leol o unrhyw faterion parcio posibl a ellid cael eu hachosi gan y cynllun. Teimlir bod angen cynnal arfarniad pellach o'r effaith bosibl ar barcio cyn bod y Cabinet yn cymryd penderfyniad ar y cynllun

- **Tagfeydd traffig –** Ar y cyfan, nid oedd yr Aelodau'n argyhoeddedig y byddai'r cynllun yn lleihau tagfeydd traffig yn yr ardal ac o bosibl gallai gynyddu rhai amserau teithio.
- Teimlir bod angen adolygu'r data modelu traffig a'i ailystyried cyn bod y Cabinet yn gwneud penderfyniad ar y cynllun.
- **Opsiynau posibl ar gyfer datblygu'r safle –** Cafodd ardal drionglog fewnol y gyfnewidfa drafnidiaeth ei hadnabod fel safle datblygu posibl a allai gynhyrchu derbyn cyfalaf er mwyn cefnogi cyllido'r cynllun. Hoffai'r aelodau gael barn y

Cabinet ar y math o ddatblygiad a allai gael ei greu ar y safle a rhywfaint o sicrwydd bod cynlluniau mynediad ar gyfer datblygu'r ardal drionglog fewnol wedi'u hadolygu.

- **Beicio –** Teimlai mwyafrif yr Aelodau fod angen gwella darpariaeth ar gyfer beicio ar y safle, er enghraifft, dylid rhoi rhagor o ystyriaeth i integreiddio lonydd beiciau ar wahân yn y safle ac o'i gwmpas a dylid adolygu diogelwch y safle er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel gadael beiciau ar y safle am gyfnodau amser estynedig.

- **Cysylltedd Trafnidiaeth –** Ar y cyfan, nid oedd yr Aelodau'n argyhoeddedig gan leoliad y gyfnewidfa drafnidiaeth a'i chysylltedd â lleoliadau trafnidiaeth allweddol o gwmpas y ddinas.
- Yn benodol, bu pryder ynghylch sut y byddai'r cynllun yn cysylltu â choridorau trawsdeithio bysys cyflym sydd eto i'w diffinio'n glir; mae'r safleoedd amlwg y soniwyd amdanynt (er enghraifft cyffordd 33 a'r Mynydd Bychan) yn cael problemau gyda thagfeydd traffig sylweddol yn aml. Mae'r Pwyllgor, felly, yn argymell y caiff cysylltiadau posibl ag unrhyw goridorau trawsdeithio bysus cyflym eu hadolygu cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud gan y Cabinet.

61 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Rhoddwyd gwybod i aelodau y byddai cyfarfod nesaf Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd yn cael ei gynnal ar 14 Chwefror 2017.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.30 pm